

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

SGANIO ER DIOGELWCH, UNED GOFAL DWYS A THEATRAU YSBYTY BRONGLAIS

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf tuag at ymgorffori egwyddorion ac arferion Sganio er Diogelwch ledled Cymru.

Mae diogelwch cleifion wrth wraidd y rhaglen ac mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ledled GIG Cymru.

Awtomeiddio cysylltu Cynhyrchion, Lleoedd a Phobl a nodwyd yn unigryw.

Bydd yn helpu i atal niwed i gleifion gyda data amser real yn y man lle rhoddir gofal, a hefyd yn rhoi'r gallu i olrhain dyfeisiau meddygol wedi'u mewnblannu ar unwaith pe bai angen galw claf yn ôl.

Yn sail i'r Rhaglen mae contract wedi'i lofnodi ag Omnicell ar gyfer Datrysiad Rheoli Stocrestrau (SupplyX) sy'n defnyddio'r safonau hyn a thechnoleg sganio â llaw i danategu'r manteision uchod. Mae'r buddion a ddaw o optimeiddio'r cyflenwadau'n rhan annatod o SupplyX. Maen nhw hefyd yn golygu bod y gwaith archebu ac ailgyflenwi stoc yn llai beichus o lawer ac yn rhyddhau amser clinigol er mwyn gofalu am gleifion.

Unwaith yr oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) wedi llwyddo i greu llif data cleifion o System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i system SupplyX Omnicell ac unwaith yr oedd arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber BIP Hywel Dda yn hapus bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi'u gwneud, tîm Endosgopi Ysbyty Bronglais oedd y cyntaf i fynd yn fyw, wedi'i ddilyn yn gyflym gan yr Uned Gofal Dwys ac yna'r Theatrau.

Mae'r datrysiad yn rhoi golwg amser real o stoc ar draws yr Uned Gofal Dwys a'r Theatrau ac yn archebu'n awtomatig trwy'r system Oracle yn seiliedig ar lefelau stoc ac ail-archebu wedi'u cytuno ymlaen llaw. Mae'r rhyngwyneb technoleg sganio â'r System Gweinyddu Cleifion (PAS) lleol yn cysylltu'r cynhyrchion a ddefnyddiwyd wrth drin cleifion yn ddigidol.

Pam Newid?

Cyn gweithredu...

Archebu Cynhyrchion

Roedd archebu yn cael ei wneud â llaw a oedd yn gofyn am amser clinigol a gweinyddol sylweddol i archebu cynhyrchion trwy'r system Oracle.

Lefelau Stocrestrau

Nid oedd lefelau yn weladwy yn ôl cynnyrch neu ardal, oedd yn ei gwneud hi'n anodd deall lle'r oedd y gwahanol eitemau stoc.

Cofnodi

Roedd cofnodi neu roi manylion am wastraff cynnyrch yn waith llaw ac yn cymryd llawer o amser felly roedd cofnodion yn anghyflawn.

Dod o hyd i Gynnyrch

Pe bai cyflenwr yn galw cynnyrch yn ôl, byddai'n cymryd oriau o amser clinigol i ddod o hyd i'r eitem(au) angenrheidiol ar y silffoedd i'w tynnu o'r stoc.

Galw Cynnyrch yn Ôl

Mewn achosion pan oedd cynhyrchion wedi'u galw'n ôl wedi'u defnyddio ar gleifion, er mwyn cadarnhau pa gleifion oedd wedi cael cynhyrchion a alwyd yn ôl byddai'n rhaid chwilio drwy gofnodion ar wahân (ac ar bapur yn bennaf). Byddai hyn yn aml yn cymryd oriau neu hyd yn oed ddyddiau o amser clinigol.

Ar ôl dysgu am fanteision posibl Sganio er Diogelwch, cysylltodd Gwasanaethau Theatr BIP Hywel Dda â thîm Sganio er Diogelwch PCGC i helpu i symud ymlaen â rhoi'r system ar waith ar draws BIP Hywel Dda. Dechreuwyd yn Adran Endosgopi Ysbyty Bronglais, yna'r Uned Gofal Dwys yn yr ysbyty, ac yna'r theatrau cyn symud ymlaen i brif ysbytai eraill y bwrdd iechyd.

Y camau a gymerwyd

- Crëwyd tîm prosiect yn BIP Hywel Dda yn cynnwys arweinwyr o'r: Maes Clingol (theatrau ac Endosgopi), Omnicell, y Gadwyn Gyflenwi, TG, Caffael a Chyllid. Penodwyd Huw Thomas (Cyfarwyddwr Cyllid BIP Hywel Dda) yn Brif Berchennog Cyfrifol (SRO).
- Cafodd setiau sganio â llaw eu caffael a'u ffurfweddu i'w defnyddio gan yr Uned Gofal Dwys a'r tîm Theatrau.
- Cafodd llif o ddata cleifion gan gynnwys enw, Rhif GIG, Rhif Ysbyty a Dyddiad Geni eu creu a'u profi ar y setiau llaw.
- Diweddarwyd SupplyX (y system rheoli stocrestrau - IMS) gyda'r cynhyrchion angenrheidiol a'r lefelau stoc targed y cytunwyd arnynt gyda'r timau clinigol.
- Crëwyd rhyngwyneb dwy ffordd rhwng SupplyX ac Oracle i alluogi archebu awtomataidd.
- Rhoddwyd hyfforddiant i ddefnyddwyr ar draws tîm yr Uned Gofal Dwys gan gynnwys sut i ddefnyddio'r sganwyr ar gyfer rheoli stocrestrau ac ar gyfer cysylltu cynnyrch gyda chlaf yn ddigidol.
- Cwblhawyd profion data a chyfrif stoc terfynol cyn mynd yn fyw fel bod gan y system rheoli stocrestr safle stoc gychwynnol cywir a oedd yn cynnwys nifer y symiau wrth law, lleoliad, gwerth ac, yn bwysig iawn, roedd gan eitemau a draciwyd gofnod digidol o'u rhif cyfresol/lot a dyddiadau dod i ben.

Buddion

- Mae eitemau allweddol bellach yn cael eu harchebu'n awtomatig.
- Mae cyswllt digidol rhwng y cynnyrch a'r claf bellach yn golygu y gall gymryd munudau yn hytrach na dyddiau i alw cynnyrch yn ôl.
- Gall y tîm nawr gipio rhestr lawn o fewnblaniadau a nwyddau traul a ddefnyddir ar gleifion trwy sganio eu bandiau garddwrn.
- Gostyngiad mewn lefelau stocrestr targed heb effaith negyddol ar y gwasanaeth.
- Data costau lefel cleifion ar gael i lywio penderfyniadau.
- Gellir cofnodi rhesymau dros eitemau'n cael eu gwastraffu ar setiau llaw i lywio arferion a gwneud penderfyniadau.
- Defnyddwyr yn cael gwybod os ydynt yn dewis cynnyrch sy'n cynnwys data diogelwch e.e. cynnyrch sy'n cynnwys latecs.
- Gall defnyddwyr gipio data am swp y cynnyrch, rhifau cyfresol a dyddiad dod i ben trwy sganio a chael mynediad at adroddiadau awtomataidd e.e. cynhyrchion sydd yn dod i ben yn ôl lleoliad yn y storfa.

Ffurflen Adborth
Adborth gan y tîm Theatrau a'r Uned Gofal Dwys ar ôl gweithredu

"Mae hyn wedi rhoi cymaint o amser yn ôl i mi"

"Does dim rhaid i mi fynd i chwilota trwy gypyrddau"

"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus bod y stoc yn cael ei archebu"

Rhwystrau

Cymerodd ychydig o amser i ddatblygu'r llif data cleifion o WPAS i Omnicell ond nawr bod hwn ar gael gellir ei ddefnyddio ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan.

Weithiau gall argaeledd staff ar gyfer hyfforddiant fod yn her ond gyda hyblygrwydd a system hawdd ei defnyddio hyfforddwyd yr holl staff. Roeddynt yn gallu defnyddio'r system mewn llai na 2 awr.

Gall eitemau sydd angen eu rheoli nad ydynt ar gatalog Oracle olygu nad yw archebu yn gwbl awtomataidd. Fodd bynnag, roedd gweithio gyda'r adran gaffael cyn gweithredu yn golygu bod yr holl eitemau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar y catalog.

Gwersi

- Mae ymgysylltu â staff yn allweddol i weithredu a gwireddu manteision yn llwyddiannus.
- Mae paratoi data'n dda cyn gweithredu yn hwyluso'r broses o weithredu.
- Gall gymryd amser i ddefnyddwyr ddod i'r arfer o sganio eitemau ond unwaith y byddant yn gweld y buddion mae'n dod yn ail natur iddynt.

Manylion Cyswllt

Rhian Powell
Partner Busnes Logisteg a Rheoli Deunyddiau, BIP Hywel Dda
rhian.powell2@wales.nhs.uk

Gary Peters
Rheolwr Gwasanaeth Sganio er Diogelwch, BIP Hywel Dda
gary.peters@wales.nhs.uk
01267 235151

Sganio er Diogelwch PCGC
ScanforSafetyWales@wales.nhs.uk
https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/croeso-i-sganioerdiogelwch-cymru/